# Byw a Gweithio Ger y Gamlas

## Cynllun Gweithgareddau

## Amcanion Dysgu

- Darganfod y bobl arferai fyw a gweithio ar hyd Dyfrbont Pontcysyllte a'r Gamlas.
- Deall y swyddi oedd eu hangen er mwyn cynnal a gweithredu'r gamlas o'r 19eg Ganrif hyd at heddiw a chymharu sut mae'r rhain wedi newid.
- Datblygu sgiliau ymholi, ymchwilio, meddwl yn greadigol, cyfathrebu a chwarae rôl.

## Adnoddau

- Chwarae rôl Gweithwyr plant mewn Diwydiant: Nodiadau Canllawiau Athrawon, cardiau chwarae rôl, taflen gwestiynau chwarae rôl, adroddiad cryno
- Cymharu bywydau pobl gyfoethog a thlawd  Nodiadau Canllawiau Athrawon, Ffeiliau Ffeithiau a thaflen gymharu
- Diwrnod ym mywyd William ac Alice: Nodiadau Canllaw i Athrawon
- Gweithio ar y Gamlas - ddoe a heddiw: Nodiadau Canllawiau Athrawon, Ffeiliau Ffeithiau a thabl cymharu
- Ffilm: Cwrdd ag Ifan a Taffy

## Gweithgareddau



**Defnyddiwch** adroddiad Comisiwn Cyflogaeth Plant 1842 i greu cardiau chwarae rôl ac actio rôl gweithiwr plentyn.
**Ymchwiliwch** i fywydau dau deulu cyferbyniol arferai fyw ar hyd y gamlas yn y gorffennol gan ddefnyddio cofnodion y cyfrifiad, lluniau a mapiau.
**Dychmygwch** ddiwrnod ym mywyd dau blentyn Victoraidd cyferbyniol arferai fyw ar hyd y gamlas.
**Cymharwch** swyddi'r rhai arferai weithio ar hyd y gamlas ddoe a heddiw, yna crëwch ddarluniau tablo am y swyddi gwahanol gan ddefnyddio lluniau fel ysbrydoliaeth.
**Gwyliwch:** Cwrdd ag Ifan a Taffy i ddysgu am swydd ar y gamlas heddiw.

## Awgrymiadau

Cwblhewch y gweithgaredd yn  y bundle "Sut y mae'r Dyfrpont Pontcysyllte a Chamlas wedi newid dros amser?" er mwyn ymgyfarwyddio â defnyddio data'r Cyfrifiad.

## Sesiwn lawn

Yn sgil Dyfront Pontcysyllte a'r Gamlas, daeth llawer o gyfleoedd swyddi i Ddyffryn Dyfrdwy, i bobl leol a gweithwyr o ymhellach i ffwrdd. Roedd llawer yn cael eu cyflogi gan ddiwydiannau oedd yn tyfu oedd yn defnyddio'r gamlas i gludo nwyddau, roedd rhai yn gweithredu cychod y gamlas ac roedd eraill yn cael eu cyflogi i drwsio a chynnal a chadw'r gamlas. Mae angen rhai o'r swyddi yma hyd heddiw er mwyn cadw'r gamlas mewn cyflwr da ar gyfer cychod ymwelwyr a hamdden.

## Cysylltiadau Cwricwlwm CA2

| Lloegr | Cymru |
|---|---|
| · Hanes<br>· Daearyddiaeth<br>· Saesneg<br>· Drama | · Dyniaethau<br>· Celfyddydau Mynegiannol<br>· Llythrennedd a Chyfathrebu |

## Gwefannau defnyddiol / adnoddau ychwanegol

- Primary Homework help The Victorians
- 1842 Children's Employment Commission
- Saturn Fly-boat
- The Victorians on the Canals – London Canal Museum